

## **Adroddiad Blynyddol ar Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol - Rhagfyr 2018**

### **Cefndir**

1. Mae Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC) yn cynnwys prosiectau seilwaith o bwysigrwydd cenedlaethol. Fel sy'n ofynnol dan adran 62D Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("y Ddeddf Cynllunio"), cyflwynir ceisiadau DAC i Weinidogion Cymru.
2. Mae Adran 62L (2) y Ddeddf Cynllunio'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru bennu ceisiadau cynllunio DAC cyn diwedd y cyfnod penderfynu a ragnodwyd, sy'n 36 wythnos gan gychwyn ar y dyddiad y caiff y cais DAC ei dderbyn gan Weinidogion Cymru.
3. Mae Adran 62L (5) y Ddeddf Cynllunio'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru gyflwyno hysbysiad i (a) atal y broses o gynnal y cyfnod penderfynu mewn achos penodol am gyfnod a nodir yn yr hysbysiad ac i (b) derfynu, ostwng neu ymestyn cyfnod o atal presennol.
4. Mae Adran 62L (8) y Ddeddf Cynllunio'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi adroddiad blynyddol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar eu prosesau o gydymffurfio â'r ddyletswydd a osodwyd gan adran 62L (2) ac o ran arfer eu swyddogaethau dan adran 62L (5).
5. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys adroddiad blynyddol sy'n ofynnol dan adran 62L (8) y Ddeddf Cynllunio.

### **Datganiad**

6. Fe wnaeth Gweinidogion Cymru bennu 4 cais cynllunio DAC rhwng mis Rhagfyr 2017 a mis Rhagfyr 2018. Cafodd yr holl geisiadau eu penderfynu o fewn y cyfnod penderfynu statudol. Defnyddiodd Gweinidogion Cymru eu pwerau dan adran 62L (5) y Ddeddf Cynllunio wrth benderfynu ar ddau gais cynllunio. Darperir y manylion yn yr Atodiad atodedig.

## Atodiad

### Penderfyniadau DAC, Rhagfyr 2017 – Rhagfyr 2018.

Cais cynllunio DAC	Penderfyniad	Gwnaed penderfyniad o fewn y cyfnod penderfynu 36 wythnos?	Defnyddiwyd pwerau atal?	Rheswm dros atal
<p><b>Valero</b> – Gwaith Cogeneration (cyfuniad o wres a phŵer) gan gynhyrchu hyd at 49.9 MW o allbwn trydanol i gyflenwi gofynion pŵer a stem Purfa Valero Sir Benfro. Cyf: APP/N6845/A/16/3163511</p>	Caniatawyd	<p>Do.</p> <p>Dyddiad cychwyn – 12/07/2017 Cyhoeddi penderfyniad – 7/12/2017</p>	Naddo	Amherthnasol
<p><b>Egnedol</b> – Cais gan Egnedol Wales Ltd ar gyfer 49.9 MW Adnodd Biomas i Ynni a 2 Barc Ecolegol ar dir yn Blackbridge a Waterston, ger Aberdaugleddau. Cyf: APP/N68455/A/16/3146073</p>	Gwrthodwyd	<p>Do</p> <p>Dyddiad cychwyn – 22/12/2016 Cyhoeddi penderfyniad - 27/06/2018</p>	Do	<p>Dau gyfnod o atal.</p> <p><u>04/04/2017 – 30/09/17</u></p> <p>Cyfnod atal o 6 mis er mwyn galluogi'r ymgeisydd i ddarparu gwybodaeth amgylcheddol ychwanegol.</p> <p><u>24/01/2018 – 23/05/2018</u></p> <p>Cyfnod atal o 17 wythnos er mwyn sicrhau na fyddai camddealltwriaethau gweithdrefnol yn ystod y</p>

				cyfnod atal cyntaf yn peri anfantais i'r ymgeisydd. Mae'r cyfnod hwn o atal wedi rhoi cyfle i'r ymgeisydd gyflwyno ei wybodaeth ecolegol derfynol.
<b>Fferm solar Llanwern</b> – Cais gan Gwent Farmers' Community Solar Scheme Ltd am fferm solar ar dir yng Ngwastatir Cil-y-Coed. Cyf: APP/G6935/A/16/3150137	Caniatawyd	Do  Dyddiad cychwyn – 05/03/2018 Cyhoeddi penderfyniad – 08/11/2018	Do	<u>25/04/2018 – 21/06/2018</u>  Cyfnod atal o 8 wythnos i ganiatáu i'r ymgeisydd gyflwyno amrywiad i'r cynllun a oedd yn cynnwys sgrinio clawdd ychwanegol.
<b>Gorsaf generaduron wrth gefn Sudbrook</b> - generaduron pŵer nwy er mwyn darparu pŵer wrth gefn i'r Grid yn ystod amseroedd lle mae'r galw ar ei uchaf ar dir fferm Southbrook, Heol Sudbrook, Sudbrook. Cyf: APP/E6840/A/16/3151903	Caniatawyd	Do  Dyddiad cychwyn – 11/06/2018 Cyhoeddi penderfyniad -	Naddo	Amherthnasol

## **Developments of National Significance Annual Report - December 2018**

### **Background**

1. Developments of National Significance (DNS) comprise infrastructure projects of national importance. As required by section 62D of the Town and Country Planning Act 1990 (“the Planning Act”), DNS planning applications are made to the Welsh Ministers.
2. Section 62L (2) of the Planning Act requires the Welsh Ministers to determine DNS planning applications before the end of the prescribed determination period, which is 36 weeks beginning with the date on which the DNS application is accepted by the Welsh Ministers.
3. Section 62L (5) of the Planning Act provides the Welsh Ministers with the power to issue a notice to (a) suspend the running of the determination period in a particular case for a period specified in the notice and (b) terminate, reduce or extend an existing period of suspension.
4. Section 62L (8) of the Planning Act requires the Welsh Ministers to lay before the National Assembly for Wales an annual report on their compliance with the duty imposed by section 62L (2) and the exercise of their functions under section 62L (5).
5. This report comprises the annual report required by section 62L (8) of the Planning Act.

### **Statement**

6. The Welsh Ministers determined 4 DNS planning applications between December 2017 and December 2018. All applications were decided within the statutory determination period. The Welsh Ministers used their powers under section 62L (5) of the Planning Act in the determination of 2 planning applications. Details are provided in the attached Annex.

## Annex

### DNS Determinations, December 2017 – December 2018.

DNS planning application	Decision	Decision made within 36 week determination period?	Total no. of weeks taken to determine (excluding any suspension period)	Suspension powers used?	Reason for suspension
<b>Valero</b> – Cogeneration plant (combined heat and power) generating up to 49.9 MW electrical output to supply Valero Pembroke Refinery's power and steam demands. Ref : APP/N6845/A/16/3163511	Granted	Yes.  Start date – 12/07/2017 Decision Issued – 7/12/2017	21	No	N/A
<b>Egnedol</b> – Application by Egnedol Wales Ltd for 49.9 MW Biomass to Energy Facility and 2 Eco Parks on land at Blackbridge and Waterston, near Milford Haven. Ref: APP/N68455/A/16/3146073	Refused	Yes  Start date – 22/12/2016 Decision Issued - 27/06/2018	36	Yes	Two periods of suspension.  <u>04/04/2017 – 30/09/17</u>  A 6 month period of suspension to allow the applicant to provide additional environmental information.  <u>24/01/2018 – 23/05/2018</u>  A 17 week period of suspension to ensure procedural misunderstandings during the first suspension period would not disadvantage the applicant. This period of suspension provided the applicant with an opportunity to

					submit their final ecological information.
<b>Llanwern solar farm</b> – Application by Gwent Farmers’ Community Solar Scheme Ltd for a solar farm on land on the Caldicot Levels. Ref: APP/G6935/A/16/3150137	Granted	Yes  Start date – 05/03/2018 Decision Issued – 08/11/2018	28	Yes	<u>25/04/2018 – 21/06/2018</u>  A suspension period of 8 weeks to allow the applicant to submit a variation to the scheme which involved additional hedgerow screening.
<b>Sudbrook stand-by generating station</b> – gas powered generators to provide back-up power to the Grid during times of peak demand on land at Southbrook farm, Sudbrook Road, Sudbrook. Ref: APP/E6840/A/16/3151903	Granted	Yes  Start date – 11/06/2018 Decision issued – 14/11/2018	22	No	N/A